# Crynodeb gweithredol

## Y prosiect

Rhaglen fentora a rheoli achosion chwe mis yw Cerridwen, ar gyfer pobl ifanc 10-17 oed sydd mewn perygl o fod yn gysylltiedig â thrais. Ei nod yw atal trais a throseddu. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno gan Media Academy Cymru (MAC), a bydd plant a'u teuluoedd yn cwrdd â rheolwr achos i ddechrau er mwyn gosod nodau ar gyfer y rhaglen. Wedyn, bydd 16 wythnos o gyfarfodydd un-i-un am ddwy i dair awr bob wythnos gyda'u rheolwr achos. Yn y sesiynau hyn, nod y rheolwr achos yw cefnogi'r plentyn i leihau ei risg o fod yn gysylltiedig â thrais drwy feithrin perthynas llawn ymddiriedaeth, archwilio teimladau ac ymddygiad, gwella cyfathrebu a meithrin empathi a hunanhyder, ochr yn ochr â gosod nodau a mynd i'r afael â heriau ymarferol. Yna ceir cyfnod o fis o ymddieithrio, lle bydd y rheolwr achos yn cynllunio strategaeth ymadael ar gyfer y plentyn. Dewisir plant ar gyfer yr ymyriad os ydynt yn arddangos ymddygiad treisgar neu mewn perygl o wneud hynny, gan gynnwys mynegi meddyliau a safbwyntiau sydd o blaid trais, dangos ymddygiad ymosodol corfforol a geiriol neu gyflawni trais. Gall plant yng Nghaerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful a'r ardaloedd cyfagos dderbyn yr ymyriad a gallant gael eu hatgyfeirio gan amrywiaeth o wasanaethau partner (gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gofal cymdeithasol a'r heddlu).

Fe wnaeth YEF ariannu'r astudiaeth beilot hon fel cam cyntaf hap-dreial dan reolaeth ar raddfa fawr sy'n gwerthuso model Cerridwen. Nod yr astudiaeth beilot yw ateb p'un a oedd yn effeithiol recriwtio, dewis ar hap, cadw a chasglu data, yn ogystal â sefydlu p'un a oedd yr offer gwerthuso yn briodol a chanfod pa faint sampl fyddai ei angen ar gyfer astudiaeth effeithiolrwydd yn y dyfodol. Nod yr astudiaeth hefyd yw ateb a allai Cerridwen recriwtio a chadw digon o blant i gynnal astudiaeth gadarn, yn ogystal ag edrych ar sut oedd modd gweithredu'r rhaglen. Er mwyn mynd i'r afael â'r nodau hyn, fe wnaeth y gwerthusiad sefydlu hap-dreial wedi'i reoli ar sail effeithiolrwydd, gydag astudiaeth beilot fewnol i ddechrau. Roedd y plant yn cael eu dewis ar hap ar lefel unigol. Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2024, cafodd 74 o blant eu dewis ar hap i'r grŵp triniaeth i dderbyn Cerridwen, a chafodd 77 o blant eu dewis ar hap i'r grŵp rheoli i gael ymyriad ysgafnach (hyd at wyth cyfarfod un-i-un gyda rheolwr achos dros bum mis). Gofynnwyd i'r plant gwblhau arolwg llinell sylfaen ac arolwg bum mis ar ôl dechrau'r rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys y raddfa Hunanadrodd Drwgweithredu (SRDS) a'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ). Cynhaliodd y gwerthuswr hefyd 15 cyfweliad manwl gyda phlant a dderbyniodd Cerridwen, 14 cyfweliad gyda staff y prosiect a 22 o gyfweliadau gyda phartneriaid ehangach y rhaglen (gan gynnwys sefydliadau atgyfeirio ac aelodau teulu'r cyfranogwyr). O'r 151 o blant a gafodd eu dewis ar hap, roedd 90% (136) yn dod o gefndir ethnig Gwyn (ychydig yn is na'r gyfran o Gymru sy'n ystyried eu hunain yn Wyn – 94%). Nododd 6% eu bod o gefndir ethnig cymysg, 2% o gefndir ethnig Du ac 1% o gefndir ethnig Asiaidd.

| Casgliadau allweddol |
|---|
| Cafodd y plant eu recriwtio'n llwyddiannus, eu dewis ar hap a'u cadw yng nghyfnod astudiaeth beilot y treial. Cafodd 56 o blant eu recriwtio yn ystod y tri mis cyntaf (o'i gymharu â nod wedi'u diffinio ymlaen llaw o 36). Roedd 79% o blant mewn grwpiau triniaeth a grwpiau rheoli wedi cwblhau'r gwaith o gasglu data dilynol neu roeddent yn dal i gael cymorth ym mis Rhagfyr 2024. |
| Cafodd prosesau casglu data eu sefydlu a'u gwreiddio'n effeithiol; cwblhaodd dros 79% o gyfranogwyr o leiaf 80% o'r graddfeydd casglu data a ddefnyddiwyd ar y llinell sylfaen ac ar ôl pum mis. Gwelwyd bod yr offer gwerthuso yn ddibynadwy ac yn ymarferol, gyda chysondeb mewnol da ac aliniad â disgwyliadau damcaniaethol. |
| Cafodd Cerridwen ei chyflwyno yn unol â'r bwriad i raddau helaeth, gan lynu wrth y modiwlau craidd. Fodd bynnag, roedd hyd y sesiynau'n amrywio, yn enwedig i rai plant sydd â niwroamrywiaeth, a oedd angen addasiadau i'r sesiynau. Roedd hyd cyffredinol yr ymyriad hefyd yn hirach na'r disgwyl. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y rhaglen a'r dull gwaith ieuenctid, gydag ymgysylltiad cryf gan blant ac adborth cadarnhaol gan rieni, gofalwyr a staff. |
| Cafodd y rhan fwyaf o'r plant gymryd rhan yn y nifer disgwyliedig lleiaf o sesiynau, neu eu bod ar y trywydd iawn i wneud hynny. Dangosodd MAC hefyd fod ganddynt y capasiti angenrheidiol i ddarparu, gan gysylltu â 98% o'r 197 |

| |
|---|
| o blant a atgyfeiriwyd o fewn pum niwrnod. Dechreuodd 80% o'r plant y rhaglen o fewn 15 diwrnod ar ôl i'w hatgyfeiriad gael ei dderbyn. |
| Mae'r astudiaeth beilot fewnol wedi dangos bod treial effeithiolrwydd llawn Cerridwen yn ymarferol. Pennwyd maint sampl targed o 592 yn wreiddiol ar gyfer astudiaeth effeithiolrwydd i sicrhau maint effaith canfyddadwy lleiaf o 0.2; o ystyried cyfyngiadau adnoddau ac amser, mae hyn wedi cael ei ddiwygio i 367 (a allai gyflawni MDES o 0.25). |

## Dehongli

Cafodd y plant eu recriwtio, eu dewis ar hap a'u cadw'n llwyddiannus. Cafodd 56 o blant eu recriwtio yn ystod y tri mis cyntaf (o'i gymharu â nod wedi'i ddiffinio ymlaen llaw o 36), a chafwyd 109 o atgyfeiriadau. Roedd y 53 plentyn arall yn aros am asesiad a chyfarfodydd cychwynnol ar ddiwedd y cyfnod recriwtio. Dros gyfnod yr astudiaeth beilot gyfan (hyd at fis Rhagfyr 2024), cafwyd 217 o atgyfeiriadau, a chafodd 151 eu dewis ar hap i'r treial. Er bod y cyfraddau atgyfeirio wedi rhagori ar y targedau i ddechrau, roedd y cyfraddau hynny wedi gostwng yn hwyrach ymlaen. Rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i gefnogi cyfraddau recriwtio ac atgyfeirio wrth bontio i astudiaeth effeithiolrwydd. Roedd y broses o ddewis ar hap wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus, gyda chymhareb gyfartal o 1:1 rhwng y grwpiau triniaeth a'r grwpiau rheoli. Roedd y broses gadw hefyd yn gryf; roedd 79% o'r plant yn y grwpiau triniaeth a'r grwpiau rheoli wedi cwblhau'r gwaith o gasglu data dilynol neu roeddent yn dal i gael cymorth ym mis Rhagfyr 2024. Cafodd prosesau casglu data eu sefydlu a'u gwreiddio'n effeithiol drwy gydol cyfnod yr astudiaeth beilot; cwblhaodd dros 79% o gyfranogwyr o leiaf 80% o'r graddfeydd casglu data a ddefnyddiwyd ar y llinell sylfaen ac ar ôl pum mis. Yn benodol, roedd 94% o'r plant wedi cwblhau pob elfen o'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau ar y llinell sylfaen, ac roedd 79% wedi cwblhau'r raddfa Hunanadrodd Drwgweithredu. Cafodd cyfraddau cwblhau uchel eu cynnal yn yr arolwg dilynol ar ôl pum mis; cwblhawyd yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau gan 94% o'r cyfranogwyr ar ôl 5 mis, a chwblhawyd y raddfa Hunanadrodd Drwgweithredu gan 87% ohonynt. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ddata coll systematig, ac yn gyffredinol roedd y plant o'r farn bod yr holiaduron yn hygyrch. Gwelwyd bod yr offer gwerthuso yn ddibynadwy ac yn ymarferol, gyda chysondeb mewnol da ac aliniad â disgwyliadau damcaniaethol.

Cafodd Cerridwen ei chyflwyno yn unol â'r bwriad i raddau helaeth, gan lynu wrth y modiwlau craidd. Fodd bynnag, roedd hyd y sesiynau'n amrywio, yn enwedig i rai plant sydd â niwroamrywiaeth, a oedd angen sesiynau byrrach na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Roedd yr amserlen gyffredinol ar gyfer yr ymyriad hefyd yn hirach na'r disgwyl (gyda phlant yn cymryd rhwng 24 a 32 wythnos i gwblhau'r rhaglen, yn hytrach na'r 20 wythnos a ragwelwyd). Roedd rheolwyr achos yn ei chael yn anodd cyflwyno sesiynau wythnosol i'r plant, ac roedd y sesiynau a gollwyd wedi arwain at gyfnod ymyriad estynedig i rai plant. Mae MAC yn rhoi strategaethau ar waith i wella ymgysylltiad cynnar ac edrych ar amserlennu hyblyg i helpu i liniaru'r heriau hyn. Disgrifiodd y plant a fu'n ymwneud â phrosiect Cerridwen y rhaglen fel un werthfawr sy'n darparu perthnasoedd dibynadwy, cymorth wedi'i deilwra a lle diogel i fyfyrio ar eu hymddygiad a'u dewisiadau. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y rhaglen a'r dull gwaith ieuenctid, gydag ymgysylltiad cryf gan blant ac adborth cadarnhaol gan rieni/gofalwyr a staff. Roedd y plant yn gwerthfawrogi natur cefnogol a chyfeillgar y staff, yn gwerthfawrogi'r gallu i gwrdd â'u rheolwyr achos mewn lleoliadau lle'r oeddent yn teimlo fwyaf cyfforddus, ac yn tynnu sylw at werth y gweithgareddau myfyrio ac adolygu yn y sesiynau. Dywedodd pob un o'r plant a gafodd eu cyfweld fod ganddynt berthynas gadarnhaol â'u rheolwyr achos.

Cafodd y rhan fwyaf o'r plant gymryd rhan yn y nifer disgwyliedig lleiaf o sesiynau (12), neu eu bod ar y trywydd iawn i wneud hynny. Ar ôl pum mis o'r rhaglen, roedd dau o'r 28 o blant yn y grŵp triniaeth wedi cwblhau'r rhaglen, gyda'r 18 arall yn dal i dderbyn y rhaglen Cerridwen. O'r 18 hyn, roedd 10 wedi cwblhau'r isafswm disgwyliedig o sesiynau, ac roedd wyth ar y trywydd iawn i wneud hynny. Roedd wyth o blant wedi ymddieithrio'n gynnar. Ategwyd y gwaith o ddarparu ac ymgysylltu'n effeithiol gan ddull rhagweithiol ac ymatebol gan MAC, ac roedd llawer o blant yn cydnabod bod y cysondeb a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan oedolyn dibynadwy wedi eu cefnogi i ymgysylltu. Roedd rhwystrau rhag darparu ac ymgysylltu yn cynnwys ansefydlogrwydd teuluol a phlant yn cael eu hatgyfeirio cyn iddynt fod yn barod i gymryd rhan mewn rhaglen ddwys. Dangosodd MAC fod ganddo'r capasiti angenrheidiol i ddarparu er mwyn cyflawni ar raddfa fawr (gan gysylltu â 98% o'r 197 o blant a gafodd eu hatgyfeirio o fewn 5 diwrnod). Dechreuodd 80% o'r plant y rhaglen o fewn 15 diwrnod ar ôl i'w hatgyfeiriad gael ei dderbyn.

Mae’r astudiaeth beilot fewnol wedi dangos bod treial effeithiolrwydd llawn Cerridwen yn ymarferol. Felly, mae YEF yn bwrw ymlaen â threial llawn. Pennwyd maint sampl targed o 592 yn wreiddiol ar gyfer astudiaeth effeithiolrwydd i sicrhau maint effaith canfyddadwy lleiaf o 0.2; o ystyried cyfyngiadau adnoddau ac amser, mae hyn wedi cael ei ddiwygio i 367 (a allai gyflawni MDES o 0.25). Mae’r staff a phartneriaid ehangach yn cydnabod bod angen dewis ar hap er mwyn i Cerridwen fod ar gael yn Ne Cymru, ac mae lefelau recriwtio a chadw staff yn awgrymu bod digon ohonynt yn cael eu derbyn. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau ynghylch cymorth grŵp rheoli a thegwch, gan dynnu sylw at yr angen am gyfathrebu parhaus a chlir ynghylch manteision hap-dreial wedi'i reoli a'r mesurau diogelu sydd ar waith.